



LLWYBRAU MYNEDIAD

LLAWLYFR GWEINYDDU
(Medi 2018 - Medi 2019)

Adran Llwybrau
CBAC
245 Rhodfa'r Gorllewin
Caerdydd
CF5 2YX

☎ (029) 20265 180/048/444
Ffacs: (029) 2026 5098
E-bost: entrypathways@wjec.co.uk

CYNNWYS

	Tudalen
1. Rhagair	3
2. Cymwysterau sydd ar gael	4-5
3. Dyddiadau Allweddol	6-7
4. Cofrestriadau	8
4.1 Dulliau Cofrestru	
4.2 Dyddiadau Cofrestru	
4.3 Ffioedd	
5. Safoni	9-12
5.1 Dyddiadau Cyflwyno Gwaith Cwrs	9
5.2 Gweithdrefnau Safoni Gwaith Cwrs	9
5.3 Cyflwyno Canlyniadau ar IAMIS	9
5.4 Cyflwyno Samplau	10
5.5 Arweiniad ar Ymweliadau Safoni	11
5.5.1 Dyddiadau	
5.5.2 Newidiadau i'r Cofrestriadau	
5.5.3 System Mewnbynnu Marciau Asesiad Mewnol	
5.6 Adborth	12
6. Ystyriaeth Arbennig	13
7. Canlyniadau ac Ymholiadau	14
8. Tystysgrifau	15
9. Cysylltiadau	16-17
a) Ymholiadau Cyffredinol	16
b) Ymholiadau Pwnc-benodol	17

1. RHAGAIR

Mae'r fanyleb Llwybrau Mynediad – sy'n cynnwys rheoliadau cyffredinol, trefniadau gweinyddol, rhestr o'r unedau a rheolau cyfuno – ar gael i'w lawrlwytho o wefan CBAC drwy glicio ar y cyswllt isod:

[https://www.wjec.co.uk/1.%20Entry%20Pathways%20Specification%20\(Main%20Spec\)%20-%20English%20Version%20-%202003.10.16.pdf?language_id=1](https://www.wjec.co.uk/1.%20Entry%20Pathways%20Specification%20(Main%20Spec)%20-%20English%20Version%20-%202003.10.16.pdf?language_id=1)

Ynghyd â chydabyddiaeth well o gyflawniadau'r holl ymgeiswyr drwy gyfrwng y Datganiad o Gredyd, un o brif amcanion y cymhwyster newydd yw cynyddu hyblygrwydd o safbwynt y ffyrdd y gellir cyfuno'r unedau i greu cymhwyster yn hytrach na gorfod cydymffurfio â meysydd pwnc traddodiadol.

Mae'r manylion ynglŷn â'r unedau ar gael ar wefan CBAC (www.cbac.co.uk/entrypathways). Bydd gwefan CBAC yn cael ei diweddarau unwaith y bydd yr unedau ar gael. Bydd y wybodaeth ddiweddaraf am fanylion yr unedau unigol i'w chael ar wefan CBAC.

Ewch i'r wefan hefyd am fanylion ar sesiynau Datblygiad Proffesiynol Parhaus (DPP).

2. CYMWYSTERAU SYDD AR GAEL

Mae pob uned a chymhwyster wedi eu diffinio yn nhermau:

- lefel (pa mor anodd neu faint o sialens ydynt i'r dysgwr) a
- credyd (faint o waith y mae ei angen) – 1 credyd = 10 awr o amser dysgu i'r dysgwr ar gyfartaledd

Mae cymwysterau Llwybrau Mynediad CBAC ar gael ar bedair lefel:

Mynediad 1

Mynediad 2

Mynediad 3

Lefel 1

Ac mewn tri maint:

Dyfarniad (8 credyd neu fwy)

Tystysgrif (13 credyd neu fwy)

Diploma (37 credyd neu fwy)

Mae'r teitlau canlynol ar gael:

Mynediad 1

Teitl	Cymwysterau	Codau Cofrestru
Cynnydd Personol	Dyfarniad, Tystysgrif, Diploma	6000/A1, C1, D1
Defnyddwyr TGCh	Dyfarniad, Tystysgrif	6010/A1, C1

Mynediad 2

Teitl	Cymwysterau	Codau Cofrestru
Datblygiad Personol a Chymdeithasol	Dyfarniad, Tystysgrif	6001/A2, C2
Byw'n Annibynnol	Dyfarniad, Tystysgrif, Diploma	6002/A2, C2, D2
Paratoi i Weithio	Dyfarniad, Tystysgrif, Diploma	6003/A2, C2, D2
Gwyddoniaeth Heddiw	Dyfarniad, Tystysgrif, Diploma	6004/A2, C2, D2
Dyniaethau	Dyfarniad, Tystysgrif, Diploma	6005/A2, C2, D2
Y Creadigol, Y Cyfryngau a Chelfyddydau Perfformio	Dyfarniad, Tystysgrif, Diploma	6006/A2, C2, D2
Saesneg Ychwanegol	Dyfarniad, Tystysgrif	6007/A2, C2
Cymraeg	Dyfarniad, Tystysgrif	6008/A2, C2
Mathemateg	Dyfarniad, Tystysgrif	6009/A2, C2
Defnyddwyr TGCh	Dyfarniad, Tystysgrif	6010/A2, C2
Byw'n Iach a Ffitrwydd	Dyfarniad, Tystysgrif	6011/A2, C2, D2
Cymraeg Ail Iaith	Dyfarniad, Tystysgrif	6012/A2, C2

Mynediad 3

Teitl	Cymwysterau	Codau Cofrestru
Datblygiad Personol a Chymdeithasol	Dyfarniad, Tystysgrif	6001/A3, C3
Byw'n Annibynnol	Dyfarniad, Tystysgrif, Diploma	6002/A3, C3, D3
Paratoi i Weithio	Dyfarniad, Tystysgrif, Diploma	6003/A3, C3, D3
Gwyddoniaeth Heddiw*	Dyfarniad, Tystysgrif, Diploma	6004/A3, C3, D3
Dyniaethau	Dyfarniad, Tystysgrif, Diploma	6005/A3, C3, D3
Y Creadigol, Y Cyfryngau a Chelfyddydau Perfformio	Dyfarniad, Tystysgrif, Diploma	6006/A3, C3, D3
Saesneg Ychwanegol	Dyfarniad, Tystysgrif	6007/A3, C3
Cymraeg	Dyfarniad, Tystysgrif	6008/A3, C3
Mathemateg	Dyfarniad, Tystysgrif	6009/A3, C3
Defnyddwyr TGCh	Dyfarniad, Tystysgrif	6010/A3, C3
Byw'n Iach a Ffitrwydd	Dyfarniad, Tystysgrif	6011/A3, C3
Cymraeg Ail Iaith	Dyfarniad, Tystysgrif	6012/A3, C3

Lefel 1

Teitl	Cymwysterau	Codau Cofrestru
Defnyddwyr TGCh	Dyfarniad, Tystysgrif	60010/A4, C4

3. DYDDIADAU ALLWEDDOL

Medi 2018	Gweithred i'w chyflawni
Dyddiad olaf i gyfnewid graddau Mehefin 2018	Canolfannau i gyflwyno gwaith erbyn 20 Medi 2018
Tystysgrifau Arholiadau Mehefin 2018	I'w cyhoeddi gan CBAC
Adroddiadau arholwyr ar arholiadau 2018	I'w cyhoeddi ar wefan CBAC
Data sylfaenol cyfres Ionawr 2019 ar gael ar y wefan ddiogel	Gall y canolfannau ddechrau cofrestru gan ddefnyddio dull cofrestru o'u dewis

Hydref 2018	Gweithred i'w chyflawni
Dechrau'r Cyfnod Cofrestru ar gyfer Arholiadau Ionawr 2019	Canolfannau i gofrestru gan ddefnyddio dull cofrestru o'u dewis

Tachwedd 2018	Gweithred i'w chyflawni
Sgriniau System Mewnbynnu Marciau Aseiad Mewnol (IAMIS) ar gael ar gyfer Ionawr 2019	A gael o 6 Tachwedd – canolfannau i fewnbynnu'r canlyniadau erbyn 12 Rhagfyr 2018
Data sylfaenol cyfres Mehefin 2019 ar gael ar y wefan ddiogel	Gall y canolfannau ddechrau cofrestru gan ddefnyddio dull cofrestru o'u dewis
Dyddiad olaf i dderbyn cofrestriadau a newidiadau ar gyfer Arholiadau Ionawr 2019	Canolfannau i gofrestru gan ddefnyddio dull cofrestru o'u dewis erbyn 11 Tachwedd 2018

Rhagfyr 2018	Gweithred i'w chyflawni
Ymweliadau safoni ar gyfer Byw'n Iach a Ffitrwydd Ionawr 2019 (gweler tudalen 11 am fanylion pellach)	Yn digwydd rhwng 28 Tachwedd ac 10 Rhagfyr 2018
Dyddiad olaf i gyflwyno graddau	Canolfannau i gyflwyno graddau'r unedau i CBAC ar y System Mewnbynnu Marciau Aseiad Mewnol (IAMIS) erbyn 12 Rhagfyr 2018
Dyddiad olaf i gyflwyno samplau gwaith cwrs	Y ganolfan i anfon gwaith at y safonwr penodol erbyn 12 Rhagfyr 2018

Ionawr 2019	Gweithred i'w chyflawni
Safoni samplau gwaith cwrs yn allanol	Safonwyr CBAC i ddilysu'r gwaith ac i gadarnhau'r canlyniadau

Chwefror 2019	Gweithred i'w chyflawni
Dechrau'r Cyfnod Cofrestru ar gyfer Arholiadau Mehefin 2019	Canolfannau i gofrestru gan ddefnyddio dull cofrestru o'u dewis

Mawrth 2019	Gweithred i'w chyflawni
Ymweliadau safoni ar gyfer Byw'n Iach a Ffitrwydd Mehefin 2019 (gweler tudalen 11 am fanylion pellach)	Yn digwydd rhwng 5 Mawrth a 5 Mai 2019
Dosbarthu canlyniadau arholiadau Ionawr 2019 i ymgeiswyr	Canolfannau i ryddhau'r canlyniadau i'r ymgeiswyr ar 8 Mawrth 2019
Sgriniau System Mewnbynnu Marciau Aseiad Mewnol (IAMIS) ar gael ar gyfer Mehefin 2019	Ar gael o 12 Mawrth – canolfannau i fewnbynnu'r canlyniadau erbyn 4 Mai 2019
Dyddiad olaf i dderbyn cofrestrïadau a newidiadau ar gyfer Arholiadau Mehefin 2019	Canolfannau i gofrestru gan ddefnyddio dull cofrestru o'u dewis erbyn 18 Mawrth 2019

Ebrill 2019	Gweithred i'w chyflawni
Ymweliadau safoni ar gyfer Byw'n Iach a Ffitrwydd Mehefin 2019 (gweler tudalen 11 am fanylion pellach)	Yn digwydd rhwng 5 Mawrth a 5 Mai 2019
Dyddiad olaf i gyfnewid graddau Ionawr 2019	Canolfannau i gyflwyno erbyn 12 Ebrill 2019

Mai 2019	Gweithred i'w chyflawni
Ymweliadau safoni ar gyfer Byw'n Iach a Ffitrwydd Mehefin 2019 (gweler tudalen 11 am fanylion pellach)	Yn digwydd rhwng 5 Mawrth a 5 Mai 2019
Dyddiad olaf i gyflwyno graddau	Canolfannau i gyflwyno graddau'r unedau i CBAC ar y System Mewnbynnu Marciau Aseiad Mewnol (IAMIS) erbyn 4 Mai 2019
Dyddiad olaf i gyflwyno samplau gwaith cwrs	Y ganolfan i anfon gwaith at y safonwr penodol erbyn 4 Mai 2019
Tystysgrifau Arholiadau Ionawr 2019	I'w cyhoeddi gan CBAC

Gorffennaf 2019	Gweithred i'w chyflawni
Dosbarthu canlyniadau arholiadau Mehefin 2019 i ymgeiswyr	Canolfannau i ryddhau'r canlyniadau i'r ymgeiswyr ar 4 Gorffennaf 2019

Medi 2019	Gweithred i'w chyflawni
Dyddiad olaf i gyfnewid graddau Mehefin 2019	Canolfannau i gyflwyno erbyn 20 Medi 2019
Tystysgrifau Arholiadau Mehefin 2019	I'w cyhoeddi gan CBAC
Adroddiadau arholwyr ar arholiadau 2019	I'w cyhoeddi ar wefan CBAC

4. Cofrestrïadau

4.1 DULLIAU COFRESTRU

Cofrestru am Unedau

Rhaid cofrestru am unedau unigol drwy gyflwyno cod perthnasol am yr uned a'r opsiwn fel y nodir uchod. Y codau opsiwn ar gyfer Mynediad 1, Mynediad 2, Mynediad 3 a Lefel 1 yw E1, E2, E3 ac L1 yn y drefn honno.

Er enghraifft, y cod cofrestru am uned *Cynnal a Chadw Gwallt Iach* Mynediad 2 yw 6159/E2; y cod cofrestru am uned *Cynnal a Chadw Gwallt Iach* Mynediad 3 yw 6159/E3.

Cofrestru Cymwysterau

Rhaid cofrestru i gyfanredu (cyfnewid) am gymhwyster drwy gyflwyno'r cod cymhwyster perthnasol a chod yr opsiwn fel y nodir uchod. Mae codau'r opsiynau'n nodi maint y cymhwyster (Dyfarniad = A, Tystysgrif = C, Diploma = D) a'i lefel.

Er enghraifft, y cod cyfnewid am **Ddyfarniad Mynediad 2 Datblygiad Personol a Chymdeithasol** yw 6001/A2; y cod cyfnewid am **Dystysgrif Mynediad 3 Datblygiad Personol a Chymdeithasol** yw 6001/C3.

D.S. Nid yw cyfanredu unedau'n digwydd yn awtomatig: mae'n rhaid cofrestru'r cod cyfnewid perthnasol er mwyn i hyn ddigwydd. Bydd y cofrestru yma fel arfer yn digwydd ar yr un pryd ag y mae unedau digonol yn cael eu cwblhau er mwyn i gymhwyster gael ei ddyfarnu, ond gallai ddigwydd mewn cyfres ddilynol.

4.2 DYDDIADAU AR GYFER DERBYN COFRESTRÏADAU

Y dyddiad olaf ar gyfer derbyn cofrestrïadau yw:

Cyfres Ionawr	11 Tachwedd 2018 (mae ffi hwyr i'w thalu os cyflwynir cofrestrïadau ar ôl y dyddiad hwn)
Cyfres Mehefin	18 Mawrth 2019 (mae ffi hwyr i'w thalu os cyflwynir cofrestrïadau ar ôl y dyddiad hwn)

Ymholiadau ynglŷn â chofrestru: Ffôn: (029) 2026 5193/5194
Ffacs: (029) 2056 2944
E-bost: entries@wjec.co.uk

4.3 FFIOEDD

Ffioedd Cofrestru

Codir tâl cofrestru ar gyfer pob uned a gofrestrir (Ewch i dudalen 38 yn llyfryn Ffioedd CBAC 2018-19).

Codir ffioedd hwyr am unrhyw gofrestrïadau a gyflwynir ar ôl y dyddiad cau cyflwyno newidiadau i gofrestrïadau (ewch i dudalen 8 yn llyfryn Ffioedd CBAC 2018-19).

Codir ffioedd atodol hefyd am gyfanredu hwyr, newid enw/DG ac adargraffu tystysgrifau (ewch i dudalennau 10-11 yn llyfryn Ffioedd CBAC 2017-18).

https://www.wjec.co.uk/exam-officers/related-documents.html?category=entries1&language_id=1

5. Safoni

5.1 DYDDIAD CYFLWYNO GWAITH CWRS:

12 Rhagfyr 2018 (cyfres Ionawr)
4 Mai 2019 (cyfres Mehefin)

(D.S. Noder mai'r uchod yw'r dyddiad olaf i gyflwyno gwaith cwrs i'r safonwyr ac ati. Rhaid i'r canolfannau sicrhau, wrth gwrs, fod yr ymgeiswyr yn cwblhau'r gwaith erbyn dyddiad sydd ymhell **cyn y dyddiad cau** er mwyn caniatáu amser i athrawon y pwnc asesu'r gwaith a'i safoni'n fewnol yn ôl yr angen.)

5.2 GWEITHDREFNAU SAFONI GWAITH CWRS

Bydd angen i athrawon y pwnc lawrlwytho copiâu o'r cofnodion asesu a'r taflenni clawr/dilysu i ymgeiswyr o dudalennau'r pwnc perthnasol ar wefan CBAC, a gellir eu cyrchu fel a ganlyn:

1. Cliciwch ar y gwymplen 'Canfod Cymhwyster' ar ochr chwith tudalen gartref CBAC (<http://www.cbac.co.uk/>) a sgroliwch i lawr nes cyrraedd y cymhwyster yr hoffech ei ganfod **yna** cliciwch ar 'Dogfennau Cysylltiedig' er mwyn chwilio am ddogfennau ar dudalen y cymhwyster **yna** ar y sgrin nesaf sgroliwch i lawr i ganfod yr adran 'Ffurflenni Gwaith Cwrs Asesiad Mewnol'.
2. Agorwch y ddogfen y mae ei hangen arnoch (fersiwn Word/PDF) a'i chadw/hargraffu yn ôl yr angen.

O ganlyniad, gall athrawon y pwnc ddechrau lawrlwytho'r ddogfennaeth angenrheidiol yn syth er mwyn sicrhau y gellir bwrw ymlaen gyda'r asesu terfynol a'r safoni mewnol ac y gellir anfon y samplau at y safonwyr erbyn 12 Rhagfyr/4 Mai.

Sicrhewch fod yr athrawon pwnc perthnasol yn ymwybodol o'r trefniadau hyn cyn gynted â phosibl er mwyn sicrhau bod yr holl ddogfennaeth wedi'i chwblhau'n gywir a'ch bod wedi cwrdd â'r holl ddyddiadau cau.

5.3 CYFLWYNO CANLYNIADAU (ar IAMIS)

Rhaid cyflwyno canlyniadau'r unedau (Llwyddo neu Absennol) ar gyfer pob ymgeisydd ar y System Mewnbynnu Marciau Asesiad Mewnol (IAMIS) erbyn y dyddiadau a nodir uchod. Gellir cyrchu'r system o'r dyddiadau isod ymlaen er mwyn mewnbynnu canlyniadau:

o 6 Tachwedd 2018 (Cyfres Ionawr)
o 12 Mawrth 2019 (Cyfres Mehefin)

Unwaith y bydd canlyniadau'r unedau wedi'u cyflwyno i CBAC drwy wasgu'r botwm '**Cyflwyno**', gall y canolfannau wedyn glicio ar y botwm '**Cynhyrchu'r sampl**'. Bydd y system yn adnabod yn awtomatig yr ymgeiswyr hynny sydd i'w cynnwys yn y sampl y mae eu gwaith i'w anfon at y safonwr. Gall y canolfannau glicio ar y botwm '**Edrych ar/golygu'r canlyniadau**' a fydd yn mynd â nhw yn ôl i dudalen yr uned. Yno gallent glicio ar '**Edrych ar fanylion y safonwr**' er mwyn darganfod at bwy y dylid anfon y samplau.

Gall y canolfannau wneud newidiadau i'r cofrestriadau yn rhad ac am ddim ar yr amod eu bod yn gwneud hynny yn ystod y cyfnod a nodir uchod. Unwaith y bydd y newidiad i'r cofrestriad wedi'i brosesu, bydd y wybodaeth wedi'i diweddarau a'r newidiad yn ymddangos ar y system ar-lein ymhen 72 awr.

Gall y ganolfan 'dynnu ymgeiswyr yn ôl' o fewn y dyddiadau cofrestru hyn.

Gall y ganolfan hefyd newid lefel y cofrestriad neu ychwanegu ymgeisydd newydd yn rhad ac am ddim o fewn y dyddiadau hyn. Fodd bynnag, **rhaid** iddynt sicrhau eu bod yn ailymweld â sgrin y system ar-lein er mwyn mewnbynnu canlyniad yr ymgeisydd unwaith y bydd y cofrestriad wedi'i brosesu ac unwaith y bydd 72 awr wedi mynd heibio er mwyn i'r wybodaeth gael ei diweddarau ar y system.

D.S. Ni fydd unrhyw ymgais i wneud newidiadau i'r cofrestriadau ar ôl y dyddiad cau yn cael ei phrosesu. Yn achos unrhyw ymgeiswyr sy'n ymddangos ar IAMIS ac sydd heb gwblhau pob un o'r meini prawf asesu neu sydd wedi'u cofrestru ar gyfer y lefel anghywir, rhaid cofnodi eu bod yn 'Absennol' ac ni ddylid anfon y gwaith.

Am ganllawiau pellach ar y system ar-lein, gweler dogfen Llwybrau Mynediad – System Mewnbynnu Marciau Asesiad Mewnol: Canllaw Cam wrth Gam 2018/19.

5.4 CYFLWYNO SAMPLAU

Cyflwyno Ffolderi

Mae'n bosibl y bydd cyfarwyddiadau penodol ar sut i gyflwyno gwaith ar gael yng nghanllawiau'r cymwysterau/unedau unigol. Oni nodir yn wahanol, dylid talu sylw i'r pwyntiau canlynol:

- Dylid cyflwyno gwaith pob ymgeisydd mewn ffolder/ffeil maint A4 gan nodi **enw a rhif y ganolfan, enw a rhif yr ymgeisydd a theitl yr uned(au)** yn glir ar y ffolder/ffeil ei hun.
- Rhaid i ffolder pob ymgeisydd gynnwys taflen ddilysu wedi'i llofnodi (gweler Atodiad 2 yn y Fanyleb Llwybrau Mynediad).
- **Ni** ddylid defnyddio ffeiliau modrwy (rhy fawr i'w postio) na waledi plastig (anodd cael gafael ar y gwaith).
- Lle mae gwaith yn cynnwys nifer o aseiniadau, dylid cyfeirio atynt a'u gosod yn yr un drefn ag ar y daflen glawr (gweler yr enghraifft yn Atodiad 3 yn y Fanyleb Llwybrau Mynediad).
- Pan fo'r dystiolaeth a gyflwynir yn ymwneud â'r meini prawf asesu ar gyfer mwy nag un uned, dylid cyfeirio at y dystiolaeth hon ar y taflenni clawr.

Unwaith y bydd y canlyniadau wedi'u cyflwyno i CBAC ar y system ar-lein, bydd botwm **'Edrych ar fanylion y safonwr'** yn ymddangos fydd yn datgelu enw'r safonwr y dylid anfon pob uned ato.

Os dewisir ymgeisydd sydd wedi'i farcio'n 'Absennol' i fod yn rhan o'r sampl, gellir dewis ymgeisydd arall drwy ddefnyddio'r cyfleuster blwch ticio yn y golofn o dan 'Sampl' ar y system. Os oes unrhyw newidiadau i'r ymgeiswyr sydd yn y sampl, rhaid anfon **llythyr at y safonwr gyda gwaith y sampl** er mwyn ei hysbysu o'r newid.

Os oes nifer o unedau yn mynd at yr un safonwr, gellir pacio'r rhain a'u rhoi yn yr un amlen i'w hanfon i CBAC. Rhaid sicrhau bod **enw'r safonwr wedi'i farcio glir** ar flaen y pecyn gan ddefnyddio'r labeli sydd ar gael ar y system ar-lein.

5.5 YMWELIADAU SAFONI

5.5.1 Dyddiadau'r Ymweliadau

Bydd y safonwyr yn ymweld â chanolfannau rhwng **28 Tachwedd** ac **10 Rhagfyr 2018 ar gyfer cyfres mis Ionawr**, a rhwng **5 Mawrth** a **5 Mai 2019 ar gyfer cyfres mis Mehefin** ar gyfer y pynciau sydd wedi'u rhestru isod. Bydd y safonwr/safonwyr yn cysylltu â'r ganolfan/canolfannau i drefnu dyddiad yr ymweliad safoni.

Anfonir **llythyrau yn cadarnhau'r dyddiadau** i'r canolfannau ar gyfer y pynciau isod **unwaith y bydd y ganolfan a'r safonwr wedi cytuno ar ddyddiad**.

Pwnc

Gofynion Ymweliadau Safoni

6430 Gweithgareddau Anturus	Bydd angen i'r safonwr weld samplau o weithgareddau ymarferol. Dylid hefyd cyflwyno cofnodion asesu neu ddatganiadau tyst wedi'u cwblhau i'r safonwr.
6431 Gweithgareddau Dawns Greadigol	Bydd angen i'r safonwr weld samplau o weithgareddau ymarferol. Dylid hefyd cyflwyno cofnodion asesu neu ddatganiadau tyst wedi'u cwblhau i'r safonwr.
6432 Gweithgareddau Gymnasteg	Bydd angen i'r safonwr weld samplau o weithgareddau ymarferol. Dylid hefyd cyflwyno cofnodion asesu neu ddatganiadau tyst wedi'u cwblhau i'r safonwr.
6433 Paratoi ar gyfer Gweithgareddau Chwaraeon	Bydd angen i'r safonwr weld samplau o weithgareddau ymarferol. Dylid hefyd cyflwyno cofnodion asesu neu ddatganiadau tyst wedi'u cwblhau i'r safonwr.
6434 Gweithgareddau Unigol neu gyda Phartner	Bydd angen i'r safonwr weld samplau o weithgareddau ymarferol. Dylid hefyd cyflwyno cofnodion asesu neu ddatganiadau tyst wedi'u cwblhau i'r safonwr.
6435 Gweithgareddau Cystadleuol Tîm	Bydd angen i'r safonwr weld samplau o weithgareddau ymarferol. Dylid hefyd cyflwyno cofnodion asesu neu ddatganiadau tyst wedi'u cwblhau i'r safonwr.
6436 Gweithgareddau Corfforol yn aml ac yn rheolaidd	Bydd angen i'r safonwr weld samplau o weithgareddau ymarferol. Dylid hefyd cyflwyno cofnodion asesu neu ddatganiadau tyst wedi'u cwblhau i'r safonwr.

5.5.2 Newidiadau i'r cofrestrïadau

Rhaid cofrestru'r ymgeiswyr ar gyfer pob uned yn ôl lefel eu cyflawniad. Os nad yw'r safonwr, yn ystod ymweliad safoni, yn credu bod yr ymgeisydd wedi cyflawni gofynion y lefel a gofrestrwyd iddo, gallwch newid y cofrestrïad i nodi'r lefel gywir. Os yw'n amlwg o'r broses safoni fod ymgeisydd heb gael ei gofrestru, gellir ei gofrestru. Rhaid gwneud pob newidiad o'r fath i'r cofrestrïadau **yn syth** ar ddiwrnod yr ymweliad safoni unwaith y bydd y safonwr wedi gorffen y gwaith dilysu. Bydd hyn yn sicrhau bod newidiadau i'r cofrestrïadau yn gallu cael eu prosesu o fewn y cyfnod a glustnodir i newid cofrestrïadau, ac yn caniatáu digon o amser i ddatrys unrhyw broblemau sy'n codi o ran gwrthodiadau cofrestru.

5.5.3 System Mewnbynnu Marcïau Asesiad Mewnol

O fis Ionawr 2016 ymlaen, bydd modd cyflwyno canlyniadau uned ymarferol Byw'n lach a Ffitrwydd ar y system ar-lein. Rhaid i'r canolfannau sicrhau bod y canlyniadau ar gyfer pob ymgeisydd, uned a lefel wedi'u cyflwyno **cyn** yr ymweliad safoni.

Unwaith y byddwch wedi cyflwyno'r holl ganlyniadau rhaid i'r canolfannau argraffu'r sgriniau IAMIS sy'n rhestru pob ymgeisydd, a chyflwyno'r taflenni wedi'u hargraffu i'r safonwr wrth iddo gyrraedd er mwyn iddo wneud cofnod o ganlyniadau'r ymgeiswyr.

Os yw ymgeisydd yn absennol/ddim ar gael ar ddiwrnod yr ymweliad safoni, rhaid cyflwyno **Datganiad Tyst** i'r safonwr ar gyfer yr ymgeisydd absennol fel tystiolaeth ei fod wedi cwrdd â meini prawf asesu'r uned. Caiff yr ymgeisydd ei farcio'n 'absennol' ar gyfer yr uned os na ddarperir Datganiad Tyst ar ei gyfer.

5.6 ADBORTH

Bydd adroddiad safonwr yn rhoi adborth ar gyfer **pob uned a gofrestrir gan y ganolfan**. Yn yr adroddiad hwn, trafodir Gweinyddiaeth, Cynnwys/Tasgau ac Asesiadau.

O Haf 2016 ymlaen, gellir gweld pob un o adroddiadau'r safonwyr ar y wefan ddiogel drwy glicio ar y tab 'Argraffu Canlyniadau'.

Canlyniad y broses safoni allanol fydd naill ai derbyn asesiadau'r ganolfan *neu* ddarparu arweiniad ar yr hyn y mae angen ei wneud cyn i'r ganolfan allu **ailgyflwyno unedau penodol mewn cyfres arholi ddilynol**.

Bydd adroddiad cyffredinol gan yr Uwch Safonwr ar gyfer pob maes ardystio yn cael ei ddarparu ym mhob cyfres arholi a gellir ei gyrchu ar wefan ddiogel CBAC.

6. YSTYRIAETH ARBENNIG

Lluniwyd y fanyleb hon i gynnig mynediad teg i bob ymgeisydd a lleihau'r angen i wneud addasiadau rhesymol ar gyfer ymgeiswyr sydd â gofynion penodol. Fel arfer, disgwylir i ganolfannau wneud trefniadau priodol ar gyfer galluedd, diddordebau ac anghenion ymgeiswyr unigol wrth iddyn nhw

- (a) ddewis yr unedau a'r cymwysterau sydd ar gael
- (b) cynnig hyblygrwydd o ran y gwahanol ddulliau asesu a'r mathau gwahanol o dystiolaeth er mwyn arddangos bod yr ymgeisydd wedi cwrdd â'r meini prawf asesu.

Os bydd unrhyw ymholiadau ynghylch y defnydd o'r hyblygrwydd hwn sy'n gynwysedig yn y fanyleb i fodloni anghenion ymgeiswyr, neu ynghylch y defnydd o addasiadau rhesymol, dylai canolfannau gysylltu â CBAC.

Yn eithriadol, os bydd canolfan am i ddysgwyr gael ystyriaeth arbennig; bydd y gweithdrefnau yn dilyn y rheini a amlinellir yn Adran E o gyhoeddiad y Cydgyngor Cymwysterau (JCQ), sef *Trefniadau Mynediad ac Addasiadau Rhesymol*.

7. CANLYNIADAU AC YMHOLIADAU

Bydd canlyniadau arholiadau Llwybrau Mynediad 2016 yn cael eu rhyddhau i'r canolfannau ar y dyddiadau canlynol:

Cyfres Ionawr:

Dydd Mercher 6 Mawrth 2019 (i'w lawrlwytho gan y ganolfan)

Dydd Iau 7 Mawrth 2019 (i'w rhyddhau i'r ymgeiswyr)

Cyfres Mehefin:

Dydd Mercher 3 Gorffennaf 2019 (i'w lawrlwytho gan y ganolfan)

Dydd Iau 4 Gorffennaf 2019 (i'w rhyddhau i'r ymgeiswyr)

Os yw canolfan yn anfodlon â chanlyniad ymgeisydd, rhaid i Bennaeth y Ganolfan gysylltu â'r Bwrdd Arholi gan nodi natur yr anfodlonrwydd. Rhaid i'r bwrdd arholi dderbyn pob cais **o fewn 21 o ddiwrnodau** i gyhoeddi'r canlyniadau.

8. TYSTYSGRIFAU

Anfonir y tystysgrifau i'r canolfannau tua **diwedd mis Mai 2019 ar gyfer arholiadau cyfres Ionawr** a thua **diwedd mis Medi 2019 ar gyfer arholiadau cyfres Mehefin**.

Bydd yr ymgeiswyr yn derbyn tystysgrifau Datganiad o Gredyd (sy'n rhestru pob uned a gyflawnwyd) a thystysgrifau Cyflawni'r Cymhwyster (ar yr amod bod cod cyfnewid y cymhwyster wedi'i gyflwyno'n gywir).

9. CYSYLLTIADAU

a. Ymholiadau a gwybodaeth gyffredinol:

Cysylltiadau	Rhif ffôn	E-bost
Gweinyddu/Dyfarniad Sgiliau		
Llinos Griffiths	029 2026 5180	llinos.griffiths@wjec.co.uk
Gabrielle Sheppard	029 2026 5048	gabrielle.sheppard@wjec.co.uk
Penodedigion/Arholwyr/Safonwyr		
Martyn Stallard	029 2026 5156	martyn.stallard@wjec.co.uk
Cofrestriadau		
Adran Gofrestriadau	029 2026 5193/4	entries@wjec.co.uk
Datblygiad Proffesiynol Parhaus (DPP)		
Nia Jones	029 2026 5405	cpdsection@wjec.co.uk

b. Ymholiadau pwnc-benodol

Os oes gennych ymholiadau pwnc-benodol, cysylltwch â'r personél a restrir isod.

Cymhwyster	Swyddog Pwnc / Swyddog Cefnogaeth Pwnc	Rhif ffôn	E-bost
Saesneg Ychwanegol	Guy Melhuish / Lewis Beecham	029 2026 5179/070	guy.melhuish@wjec.co.uk lewis.beecham@wjec.co.uk
Y Creadigol, Y Cyfryngau a Chelfyddydau Perfformio	Wyn Jones / Jodie Mearing-Lane	029 2026 5316/101	epcreative@wjec.co.uk
Cymraeg	Llinos Lloyd / Nia Morgan	029 2026 5004/192	llinos.lloyd@cbac.co.uk nia.morgan@cbac.co.uk
Cymraeg Ail Iaith	Amanda Griffiths / Nia Morgan	029 2026 5480/192	amanda.griffiths@cbac.co.uk nia.morgan@cbac.co.uk
Byw'n Iach a Ffitrwydd	Mike Neale / Andrew O'Regan	029 2026 5315/097	michael.neale@wjec.co.uk andrew.oregan@wjec.co.uk
Dyniaethau	Rachel Dodge / Robert Williams	029 2026 5125/313	rachel.dodge@wjec.co.uk robert.williams@wjec.co.uk
Defnyddwyr TGCh	Andy Parker / Kwai Wong	029 2026 5137/332	andy.parker@wjec.co.uk kwai.wong@wjec.co.uk
Byw'n Annibynnol	Karen Evans / Hilary Wyman	029 2026 5320/333	karen.evans@wjec.co.uk hilary.wyman@wjec.co.uk
Mathemateg	Kathryn Rees / Sophie Gibbs	029 2026 5473/438	kathryn.rees@wjec.co.uk sophie.gibbs@wjec.co.uk
Datblygiad Personol a Chymdeithasol	Mike Neale / Tania Lucas	029 2026 5315/343	mike.neale@wjec.co.uk tania.lucas@wjec.co.uk
Cynnydd Personol	Mike Neale / Gemma Edwards	029 2026 5315/115	mike.neale@wjec.co.uk gemma.edwards@wjec.co.uk
Paratoi i Weithio	Stephen Oliver / Clare Williams	029 2026 5038/059	stephen.oliver@wjec.co.uk clare.williams@wjec.co.uk
Gwyddoniaeth Heddiw	Llinos Wood / Sarah Price	029 2026 5384/103	llinos.wood@wjec.co.uk sarah.price@wjec.co.uk